**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich gohebiaeth ar 28 Tachwedd am Rubicon Dance. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ers i'r mater ddod i'r amlwg ddiwedd mis Medi.

Fel aelod presennol o Bortffolio Celfyddydau Cymru CCC dyfarnwyd £196,743 iddo ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Mae Rubicon wedi llwyddo i drafod gyda'i gyllidwyr eraill, ac mae hefyd wedi sicrhau cyllid newydd sy'n caniatáu iddo barhau â'i waith.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol, ac o ystyried llwyddiant Rubicon i sicrhau cymorth ariannol gan bartneriaid cyllido allweddol eraill, cytunodd CCC i ryddhau gweddill yr arian ar gyfer eleni ymlaen llaw yn hytrach na thrwy'r rhandaliadau chwarterol arferol. Mae Rubicon bellach wedi derbyn y ddau daliad chwarterol ar gyfer Hydref-Rhagfyr ac Ionawr-Ebrill.

Mae CCC wedi bod yn trafod, a bydd yn parhau i drafod yn barhaus ac yn rheolaidd gyda'r Ymddiriedolwyr ynglŷn â'r sefyllfa bresennol. Mae CCC yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer sut arall y gallai helpu'r sefydliad i ddod â rhywfaint o gymorth interim o ran arweinyddiaeth a chyllid i'w gynorthwyo drwy'r misoedd nesaf, a bydd yn parhau i archwilio hyn gyda Rubicon.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.